**CYNGOR CYMUNED**
**LLANFAIR YN NEUBWLL**
**COMMUNITY COUNCIL**

---

## Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - Nos Fawrth, 17eg o Dachwedd 2015

**Presennol:** Cyng. Einir Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Lloyd Jones

**2. Datganiad o ddiddordeb –** Cyng. Einir Thomas eitem 6.4

**3. Cofnodion cyfarfod - 20fed o Hydref 2015 -** Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir ond nodwyd fod angen diwigio eitem 5 o'r cofnodion Cymraeg i adlewyrchu'r fersiwn Saesneg (Cynnig Cyng. Dyfed Williams, eilio Cyng. Gordon Owen.)

**4. Materion yn codi o’r cofnodion**

1. Ffens cae chwarae - Gofynnwyd i'r clerc ganfod pa bryd oedd Mr Redmond yn debygol o ddechrau ar y gwaith, awgrymwyd hefyd y gellid rhoi ffens stoc (a fyddai’n weddol rhad) i ddiogelu’r ffin a’r gwrych newydd.

2. Lloches bws (Cyffordd A55) - ‘Roedd Valley Forge wedi eu hatgoffa am wneud y gwaith ar y lloches.

3. Postia gôl Tre Ifan - Nid chafwyd ymateb gan CSYM i’r cais gan y Cyngor Cymuned am ganiatâd i un ai trin y pyst gôl neu gymryd y cyfrifoldeb o roi rhai newydd yn eu lle. Cytunwyd i edrych yn fwy manwl ar y posibilrwydd o gymryd prydles ar gyfer y tir ychwanegol y mis nesaf.

4. Torri glaswellt Lôn Cymyran - Dywedwyd wrth y clerc fod yr amserlen torri gwair bellach wedi'i gwblhau ar gyfer y gaeaf, cytunwyd y byddai'n cysylltu â CSYM eto yn y gwanwyn.

5. Unrhyw fater arall yn codi o’r cofnodion - Dim

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref**

<u>Penderfyniadau Cynllunio</u>

32C194A - Tollgate, Caergeiliog - Cais llawn am addasu ag ehangu - wedi ei ganiatau

32C183 B - Coedlys, Caergeiliog - Cais llawn i godi annedd newydd ynghyd a chreu mynedfa newydd - wedi ei ganiatau.

32C181B/LUC - Cefn Farm, Caergeiliog - Cais am Dystysgrif Datblygu Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol y tir, a'r adeiladau ar gyfer defnydd cymysg ac amaeth a marchogaeth. - Anghyfreithlon.

6. **Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn -** fe nodwyd y canlynol
    1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Hydref
    2. Cynllun Datblygu ar y Cyd - Diweddariad
    3. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned ar 19-11-15
    4. Ymgynghoriad Llyfrgelloedd
    5. Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn (1 Rhagfyr 2015) - Cytunwyd y byddai Cyng. Dyfed Williams yn mynychu'r cyfarfod hwn i bleidleisio dros yr ymgeiswyr a ffafrir gan y Cyngor Cymuned ar gyfer Pwyllgor Safonau'r Cyngor Sir. Y rhain oedd y Cynghorydd John Roberts a'r Cyng. Eric Roberts.

7. **Materion Ariannol**

**Yn y banc ar 17.11.2015 Cyfrif Cyfredol £5634.68, Cyfrif Cadw £3917.17**

**Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y clerc (Hydref) | £176.35 | HMRC (TWE) | £44.09 |
| GMS (17441) | £91.20 | Cyfieithydd | £85.10 |
| Frank Rowlands | £180.00 | | |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Gordon Owen)**

8. **Cyfrifon 2015/2016 -** Cytunodd Cyng. Dyfed Williams edrych arnynt cyn y cyfarfod nesaf

9. **Gohebiaeth Eraill – fe nodwyd y canlynol**
    1. Cylchlythyr RHUN AP IORWERTH
    2. Adolygiad o Arian Grant Refeniw i Gynghorau Cymuned a Thref
    3. Canllawiau Pensiwn - 'roedd y clerc i adrodd ar hyn yn y cyfarfod nesaf
    4. Comisiynydd Cymru'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol -
    5. Ymgynghoriad ar y blaenoriaethau plismona
    6. Newyddion Cynghorau Tref a Chymuned - 'roedd y clerc i adrodd ar hyn mis nesaf
    7. Ymgynghoriad: Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft
    8. Bapur Gwyrdd: Llywodraeth Cymru'n gofyn am farn ar wasanaethau iechyd yng Nghymru

**10 . Unrhyw fater arall**

Dywedodd Cyng. Gwilym O. Jones fod Dylan Jones oedd yn ymwneud â chwmni llochesi fws wedi tynnu ei sylw at gyflwr y lloches fawr ar Ffordd Minffordd. Nodwyd nad oedd gan y Cyngor Cymuned gyfrifoldeb amdani a chytunwyd y byddai'r clerc yn cysylltu CSYM ynghylch ei chyflwr .

 Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)

**11. Cyfarfod nesaf 19eg o Ionawr 2016.**



Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)